# HE4ME - Prifysgol De Cymru a Choleg y Cymoedd

Christopher Edwards, Rheolwr Recriwtio ac Allgymorth Myfyrwyr, Prifysgol De Cymru

Beth Giles, Darlithydd Cyfryngau Creadigol, Coleg y Cymoedd

## Cyd-destun a chefndir

Mae Prifysgol De Cymru (PDC) mewn cydweithrediad ag Ymestyn yn Ehangach wedi datblygu HE4ME – menter i godi dyheadau myfyrwyr coleg Lefel 3 i symud ymlaen i addysg uwch (AU). Mae menter HE4ME yn cynnwys cyfres o bedwar gweithdy rhyngweithiol wedi'u teilwra i archwilio cyfleoedd AU a darparu canllawiau ymarferol ar gael mynediad at addysg prifysgol. Dechreuodd y rhaglen HE4ME yn 2024/25 ac fe'i cyflwynir i fyfyrwyr Lefel 3 sy'n astudio cyrsiau Celfyddydau Creadigol yng Ngholeg y Cymoedd, yn ogystal â cholegau partner eraill Prifysgol De Cymru.

## Cyflwyno'r rhaglen

Cyflwynwyd HE4ME i bob myfyriwr Celfyddydau Creadigol Lefel 3 yng Ngholeg y Cymoedd ar eu campws yn Aberdâr. Arweiniwyd y gweithdai gan staff PDC gyda chymorth myfyrwyr-lysgenhadon PDC a rannodd eu profiadau personol.

| | |
|---|---|
| 1 | Cyflwynodd y gweithdy cychwynnol fyfyrwyr i wahanol opsiynau ôl-Lefel 3 a'u hannog i edrych yn ofalus ar eu nodau gyrfa presennol. |
| 2 | Aeth yr ail sesiwn yn fanylach i fanteision addysg uwch, dewisiadau o ran prifysgol, a manteision ennill gradd. Fe wnaeth mynd i'r afael â phryderon ariannol a darparu gwybodaeth hanfodol am gyllido myfyrwyr helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n aml yn atal myfyrwyr rhag dilyn addysg uwch. Erbyn diwedd y trafodaethau hyn, roedd llawer o fyfyrwyr a oedd gynt yn betrusgar wedi mynd ati i archwilio rhaglenni gradd, ac roedd y rhai a oedd yn ansicr am eu dyfodol i ddechrau wedi canfod bod y sesiwn hon yn addysgiadol, gan sylweddoli y gallai addysg uwch fod yn ddewis hyfyw a buddiol. |
| 3 | Cynorthwyodd y trydydd gweithdy fyfyrwyr mewn agweddau allweddol ar geisiadau ar gyfer addysg uwch, fel ysgrifennu datganiadau personol, gan roi hwb sylweddol i hyder myfyrwyr. |

| | |
|---|---|
| 4 | Y sesiwn olaf oedd taith i gampws Atrium Prifysgol De Cymru, gan ganiatáu i fyfyrwyr gael blas ar fywyd prifysgol. Bu cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol i'r pwnc, rhyngweithio â staff academaidd, a dysgu mwy am fywyd myfyrwyr. Roedd y profiad uniongyrchol hwn yn wych iddyn nhw ac yn helpu i leddfu unrhyw bryderon ynghylch y pontio i addysg uwch. |

Agwedd allweddol ar y gweithdai oedd cyflwyno gwybodaeth a gweithgareddau mewn ffordd hwyliog oedd yn ennyn diddordeb. Helpodd ambell stori gan y myfyrwyr-lysgenhadon i wneud y broses yn fwy personol i'r cyfranogwyr mewn ffordd a oedd yn ychwanegu mwy o werth na chlywed y wybodaeth gan eu tiwtoriaid yn y coleg.

Mae adborth myfyrwyr yn tynnu sylw at werth y rhaglen, yn enwedig o ran darparu eglurder ar y broses gyfan. Roedd y cyfranogwyr yn ddiolchgar am yr arweiniad strwythuredig a'r mewnwelediadau o'r byd go iawn a wnaeth y posibilrwydd o addysg prifysgol yn fwy hygyrch ac apelgar. Dyma rywfaint o'r adborth gan fyfyrwyr Lefel 3 ar eu blwyddyn gyntaf:

> ‘Fe wnaeth ymweliadau Scott fy helpu'n fawr i benderfynu mynd i'r brifysgol, gan nad oeddwn i 100% yn siŵr ar y pryd. Fe helpodd trwy siarad am gyllido, bywyd prifysgol a gwneud cais i'r brifysgol a sut i ysgrifennu datganiad personol da. Fe wnaeth hyn yn hwyl hefyd, gan gynnal fy chwilfrydedd.’
>
> Lowri

> ‘Fe'm argyhoeddwyd gan y cwrs HE4ME fod mynd i'r brifysgol yn bosibl i mi, oherwydd rhoddodd wybodaeth i mi am grantiau a lleddfu fy mhryderon am arian. Hefyd, fe roddodd wybodaeth i mi am sut y gall prifysgol fod yn hwyl, sut i wneud cais ac nad yw ysgrifennu datganiad personol mor heriol ag y mae'n ymddangos’
>
> Tia

> ‘Roedd HE4ME yn ddefnyddiol oherwydd yr amrywiaeth o wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod y sesiynau, o'r gwahanol lwybrau sydd ar gael ar ôl gadael y coleg i wahanol agweddau ar y profiad o fynd i'r brifysgol. Roeddwn i eisoes yn bwriadu mynd i'r brifysgol, ond helpodd y sesiynau i atgyfnerthu fy awydd i fynd i'r brifysgol ar ôl y coleg.’
>
> Kinsgley

> ‘Rwy'n credu bod Scott wedi fy helpu i ddysgu mwy am wneud cais i'r brifysgol, ac fe wnaeth i mi feddwl hefyd a ydw i eisiau mynd i'r brifysgol neu a ydw i eisiau ceisio cael prentisiaeth.’
>
> Jaysen

**Effaith**

Mae prosiect HE4ME wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddysgwyr creadigol Lefel 3 ar Gampws Aberdâr. Mae dysgwyr wedi dangos ymwybyddiaeth gynyddol o opsiynau AU a mwy o hyder wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu haddysg yn y dyfodol. Maen nhw wedi cael eglurder gwerthfawr ynghylch cyllido myfyrwyr a'r prosesau ymgeisio. Hyd yn hyn mae

nifer sylweddol uwch o fyfyrwyr wedi dangos diddordeb mewn gwneud cais i brifysgol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r prosiect hwn wedi bod yn hynod gefnogol wrth helpu dysgwyr creadigol Lefel 3 yng Ngholeg y Cymoedd Aberdâr i lywio’r broses bontio i addysg uwch. Trwy gynnig gweithdai wedi'u teilwra, mentora, a darparu profiadau prifysgol ymarferol, mae'r fenter hon wedi helpu i rymuso myfyrwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol academaidd ac o ran eu gyrfaoedd.

**Tîm y prosiect**

Beth Giles, Darlithydd Cyfryngau Creadigol, Coleg y Cymoedd

Christopher Edwards, Rheolwr Recriwtio ac Allgymorth Myfyrwyr, Prifysgol De Cymru

Samantha Hobby, Cydlynydd Gweinyddol UCAS, Gyrfaoedd, Coleg y Cymoedd

Scott Mahoney, Swyddog Ysgolion, Colegau ac Allgymorth, Prifysgol De Cymru

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar wefan QAA Cymru.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research